CYNGOR TREF LLANDEILO FAWR

POLISI AMGYLCHEDDOL

Mae diogelu pobl a'r amgylchedd mewn modd cydwybodol yn rhan annatod o waith ymarferol y Cyngor hwn.

1 Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Rydym yn addo ein bod yn bwriadu cynorthwyo gyda gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir gynaliadwy drwy wneud newidiadau positif mewn 5 maes gweithredu allweddol:

- Arbed adnoddau: Lleihau defnydd dianghenraid o adnoddau drwy leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff
- Arbed Ynni: Lleihau ein defnydd o ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithiol
- Teithio'n ddoeth: Lleihau'r angen am drafnidiaeth o ran pobl a nwyddau
- Siopa'n Foesegol: Prynu Masnach Deg a nwyddau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol
- Gofalu am eich Ardal: Cadw a gwella adeiladau a'r amgylchedd naturiol

2 Diogelu'r Amgylchedd

Mae diogelu'r amgylchedd yn flaenoriaeth uchel o ran cynllunio a goruchwyliaeth o ddydd i ddydd o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Cyngor hwn.

- Dylid cwblhau'r holl waith yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol a chan roi sylw arbennig i Iechyd a Diogelwch.
- Bydd pob cam rhesymol posib yn cael ei gymryd i osgoi difrod neu boendod posib i bobl ac effaith ar yr amgylchedd.
- Pan nad ydyw hyn yn ymarferol, yr amcan fydd gwella'r effaith drwy ddulliau addas.

3 Monitro'r Polisi

Cyfrifoldeb arbennig y Swyddog Technegol yw materion amgylcheddol, a dylid cyfeirio at y Swyddog hwn os bydd unrhyw anhawster o ran gweithredu'r polisi hwn. Byddwn yn chwilio am gyngor allanol priodol os bydd angen.

Mae disgwyl i'r holl weithwyr, isgontractwyr ac ymwelwyr gydweithio â'r Cyngor o ran gweithredu'r Polisi hwn, a sicrhau bod eu gwaith hwy, gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, yn cael ei gwblhau heb risg na phoendod i'w hunain neu eraill, neu'r amgylchedd ehangach.

Bydd gweithrediad y Polisi hwn yn cael ei fonitro gan reolwyr a staff y Cyngor yn yr holl leoedd gwaith parhaol a thros dro.